**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

23 Ebrill 2025

## Cytundeb Partneriaeth Can Mlynedd y DU ac Wcráin

Annwyl Eluned,

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 2 Ebrill 2025, gwnaethom drafod llythyr ac adroddiad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ymwneud â Chytundeb Partneriaeth Can Mlynedd y DU ac Wcráin.

Gwnaethom gytuno i ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth am y cytundeb hwn, gan gynnwys

- y rôl a allai fod gan Lywodraeth Cymru wrth gyflawni'r bartneriaeth, yn enwedig mewn meysydd datganoledig fel cyfnewidfeydd diwylliannol;
- y drefn o weithredu'r cytundeb yng Nghymru, gan gynnwys y rhan a chwaraeir gan sefydliadau o Gymru a phartneriaid cyflenwi Llywodraeth Cymru;
- barn Llywodraeth Cymru ar y cyfleoedd a'r manteision i Gymru yn sgil y cytundeb; ac
- a oes trafodaethau rhynglywodraethol yn digwydd ledled y DU i gydgysylltu'r gwaith o weithredu'r trefniadau newydd.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir,



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.